

## ROBERTS, EVAN JOHN (1878 - 1951), 'Y Diwygiwr'

**Enw:** Evan John Roberts  
**Ffugenw:** Y Diwygiwr  
**Dyddiad geni:** 1878  
**Dyddiad marw:** 1951  
**Rhiant:** Hannah Roberts  
**Rhiant:** Henry Roberts  
**Rhyw:** Gwryw  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 8 Mehefin 1878 yn Island House, Bwlchmynydd, Casllwchwr, Morgannwg, mab i Henry a Hannah Roberts. Bu'n gweithio fel glöwr yng Nghasllwchwr ac Aberpennar pan oedd yn ieuanc, a phrentisiwyd ef yn of yn 1902. Yr oedd yn r ieuanc o dalentau uwch na'r cyffredin, a thrwy hunan-ddisgyblaeth cyrhaeddodd safon uchel o ddiwylliant. Câl brofiadau cyfriniol ar adegau, a thystiodd iddo weddio am dair blynedd ar ddeg am ddeffroad crefyddol yng Nghymru. Dechreuodd bregethu ym Moriah, Casllwchwr, yn niwedd 1903, a derbyniwyd ef yn ymgeisydd am y weinidogaeth gan y Methodistiaid Calфинаidd. Yn niwedd Medi 1904 aeth i ysgol John Phillips, Castellnewydd Emlyn, i ddechrau'i gymhwyso'i hunan ar gyfer y weinidogaeth. Yr oedd cryn gyffro crefyddol yng ngodre Ceredigion y pryd hynny, yn sgil cyfres o gynadleddau i ddyfnhau bywyd ysbrydol yr eglwysi, a drefnwyd ar lun cynadleddau Keswick gan [Joseph Jenkins](#), ac eraill. Cafodd Evan Roberts brofiad ysgytwol yn un o'r cynadleddau hyn (ym Mlaenannerch), ac fe'i cymhellwyd i ddychwelyd i Gasllwchwr i genhadu cyn diwedd mis Hydref. Cafwyd cyfarfodydd cyffrous yn ardal Casllwchwr, ac ymhen amser byr - rhwng Tachwedd 1904 a Ionawr 1906 - ymledodd deffroad crefyddol grymus dros Gymru gyfan. Ef oedd ffigur amlycaf Diwygiad 1904-05 (fel y'i gelwir). Cafodd ei feirniadu'n chwyn gan rai gw r blaenllaw, a diau iddo wneud rhai camgymeriadau yng ngwres emosynol a brwdfrydedd heintus y cyfarfodydd. Yr oedd ef ei hun yn hollol ddiffuant, a bu straen a gwasgfa'r misoedd hynny yn ormod iddo.

Y mae'n anodd mesur effaith a dylanwad y Diwygiad. Ychwanegwyd lluoedd mawr at aelodaeth yr eglwysi ym mhobman, a chodwyd to newydd o arweinwyr a gweinidogion yn yr eglwysi. Ymledodd y deffroad i rannau eraill o Brydain, ac i'r meysydd cenhadol hwythau. Bu rhwygiadau mewn rhai cylchoedd, ac un o'r canlyniadau oedd ffurfio cyrff crefyddol newydd, megis yr Eglwys Apostolaidd, mudiad 'four-square' Elim, ac achosion Pentecostaidd. Parhaodd y dylanwadau'n hir mewn rhai cylchoedd, er i Ryfel Byd I lesteirio hynny a'i ddiffodd i ryw raddau. Gellir olrhain rhai o'r dylanwadau hyd at fudiadau carismatig ein dyddiau ni. Cred rhai hefyd i'r Diwygiad ddylanwadu ar dwf y mudiad Llafur ieuanc rhwng 1904 ac 1914.

Yn 1906, yn ei ludedd a'i wendid corfforol, cafodd Evan Roberts ymgeledd yng nghartref Mrs. Jessie Penn-Lewis, yn Leicester, a bu'n byw yn Llundain hefyd am ysbaid. Aeth o'r golwg, ond cymerodd ran yn ysbeidiol mewn cyfarfodydd yng Nghymru yn y cyfnod 1925-30. Cafodd ymgeledd gan gyfeillion ym Mhorth-cawl, ac yn Rhiwbeina, Caerdydd, ac yno y bu farw 29 Ionawr 1951; claddwyd ef ym meddrod y teulu ym Moriah, Casllwchwr. Dadorchuddiwyd cofeb iddo yn 1953 o flaen capel Moriah.

Yn ei gyfnod cynnar cyfansoddodd Evan Roberts lawer o gerddi ac emynau, a cheir detholiad o'r rheini yn ei gofiant. Cyhoeddwyd casgliad o'i emynau yn Aberdâr yn 1905, a phan oedd yn byw yn Leicester cyhoeddodd lyfryn, *Gwasanaeth a milwriaeth ysbrydol* (1912).

### Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

### Ffynonellau

T. Francis, yn *Y Diwygiad a'r diwygwyr hanes toriad gwawr Diwygiad 1904-05* (Dolgellau 1906), 9-47

J. Vyrnwy Morgan, *The Welsh religious revival, 1904-5 a retrospect and a criticism* (Llundain 1909)

D. M. Phillips, *Evan Roberts a'i waith* (Dolgellau 1912)

S. Evans a G. M. Roberts (gol.), *Cyfrol Goffa Diwygiad 1904-1905* (Caernarfon 1954), sy'n cynnwys llyfryddiaeth o'r Diwygiwr a'r Diwygiad

Eifion Evans, *The Welsh revival of 1904* (1969)

E. Morgan Humphreys, *Gwyr Enwog Gynt: argraffiadau ac atgofion personol (yr ail gyfres)* (Aberystwyth 1953), 100-09

## Darllen Pellach

Brynmor Pierce Jones, *An instrument of revival: the complete life of Evan Roberts (1878-1951)* (New Jersey 1995)

Brynmor Pierce Jones, *Voices from the Welsh revival: an anthology of testimonies, reports, and eyewitness statements from Wales's year of blessing, 1904-05* (Bridgend 1995)

Noel Gibbard, *Fire on the altar: a history and evaluation of the 1904-05 Revival in Wales* (Bridgend 2005)

Erthygl Wicipedia: [Evan Roberts](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [92467297](#)

Wikidata: [Q278385](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

